# Negyddol Arfaethedig Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir

11 Chwefror 2019

## pN(5)018 – Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019

### Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau yn gwneud diwygiadau i Reoliadau Semen Buchol (Cymru) 2008 ("Rheoliadau 2008") a Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) ("Rheoliadau 2011") sy'n ymwneud â masnach mewn anifeiliaid a chynhyrchion perthynol.

Cafodd y rheoliadau hyn eu gosod at ddibenion sifftio o dan Ddeddf yr UE (Ymadael) 2018 yn unol â Rheol Sefydlog 27.9A

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018

**Bodlonwyd Gofynion y Sifft:** Ni Nodwyd

**Rydym yn cytuno mai'r weithdrefn penderfyniad negyddol yw'r weithdrefn briodol ar gyfer y Rheoliadau hyn.**

## Pn(5)020 – Rheoliadau Cynhyrchion Bwyd a Bwyd Anifeiliaid Rheoleiddiedig (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019

### Gweithdrefn: Negyddol

Mae Rheoliadau Cynhyrchion Bwyd a Bwyd Anifeiliaid Rheoleiddiedig (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 ("yr Offeryn hwn") yn diwygio'r Offerynnau Statudol a restrir isod sy'n ymwneud â rheoliadau domestig sy'n deillio o'r UE sy'n gymwys yng Nghymru ynghylch: a) bwyd a

addaswyd yn enetig; b) deunyddiau ac eitemau mewn cysylltiad â bwyd; c) ychwanegion bwyd, cyflasynnau ac ensymau.

- Rheoliadau Bwyd a Addaswyd yn Enetig (Cymru) 2004
- Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) 2012
- Rheoliadau Ychwanegion, Cyflasynnau, Ensymau a Thoddyddion Echdynnu Bwyd (Cymru) 2013

Mae'r Offeryn hwn yn cael ei wneud gan ddefnyddio'r pwerau a roddwyd gan baragraff 1(1) o Ddeddf 2018. Mae rheoliad 3(6) yn cael ei wneud drwy arfer pwerau o dan adran 16(2) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990.

Mae rheoliad 3(6), a wneir drwy arfer pwerau o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, yn diwygio Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) 2012 i wneud darpariaeth ynghylch y meini prawf sy'n berthnasol i'r dull o bennu lefel y clorid finyl mewn deunyddiau ac eitemau mewn cysylltiad â bwyd, a phennu lefel y clorid finyl a gaiff ei rhyddhau gan y deunyddiau a'r eitemau hynny.

Gosodwyd y Rheoliadau hyn at ddibenion sifftio o dan Ddeddf yr UE (Ymadael) 2018, yn unol â Rheol Sefydlog 27.9A

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018

**Bodlonwyd Gofynion y Sifft:** Ni Nodwyd

**Rydym yn cytuno mai'r weithdrefn penderfyniad negyddol yw'r weithdrefn briodol ar gyfer y Rheoliadau hyn.**

## Pn(5)021 – Rheoliadau Hylendid a Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019

### Gweithdrefn: Negyddol

Mae’r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud drwy arfer y pwerau ym mharagraff 1(1) o Atodlen 2 a pharagraff 21 (b) i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, er mwyn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu’n effeithiol, yn ogystal â mynd i'r afael â diffygion eraill mewn cyfraith yr UE a ddargedwir sy’n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â’r Undeb Ewropeaidd.

Mae’r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i is-ddeddfwriaeth ym maes hylendid a diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid.

Cafodd y rheoliadau hyn eu gosod at ddibenion sifftio o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 yn unol â Rheol Sefydlog 27.9A.

**Rhiant-Ddeddf**: Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018

**Bodlonwyd Gofynion y Sifft**: Ni Nodwyd

**Rydym yn cytuno mai’r weithdrefn penderfyniad negyddol yw’r weithdrefn briodol ar gyfer y Rheoliadau hyn.**